# Proffil o Rôl y
# Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus (Cymru)

## Manylion y Rôl:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran:** | Ymgysylltu a Dylanwadu | **Tîm:** | Polisi ac Ymgyrchoedd |
| **Yn adrodd i:** | Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd | **Yn gyfrifol i:** | |
| **Contract:** | Parhaol | **Oriau:** | Llawn amser 35 awr |
| **Ystod y Cyflog[1]:** (+ ychwanegir pwysoliad Llundain os yw'n berthnasol) | £27,405 - £32, 480 | **Band Cyflog:** | H |
| **Lleoliad y Swydd:** (Llundain, Caerdydd, Belfast, Glasgow neu gartref) | Caerdydd | **A yw Archwiliad yn Ofynnol?** | Ydyw |
| **Deiliad Cyllideb?** | Na | **Perchennog Polisi?** | Na |

## Diben Craidd:

Gweithio o fewn y tîm Polisi ac Ymgyrchoedd i gyflawni amcanion ymgyrch a pholisi'r Rhwydwaith Maethu yng Nghymru.

## Prif Amcanion:

- Dylanwadu ar bolisi a helpu i gynnal ymgyrchoedd i gyflawni blaenoriaethau polisi ac ymgyrchoedd Y Rhwydwaith Maethu ledled y Deyrnas Unedig, gan ganolbwyntio'n benodol ar Gymru.
- Ymchwilio, dadansoddi a chasglu tystiolaeth oddi wrth sylfaen arferion y sefydliad ac ymgysylltu ag aelodau'r sefydliad i hysbysu'r gwaith o ddatblygu polisi ac ymgyrchoedd ar ofal maeth a gofal cymdeithasol plant, a chynhyrchu allbynnau ysgrifenedig am y rhain.

[1] Nodwch, os gwelwch yn dda, mai ein polisi yw cynnig ar waelod y band cyflog i ddechreuwyr newydd.

- Sicrhau y cedwir y sefydliad yn hollol gyfoes â datblygiadau polisi ac ymchwil sy'n effeithio ar ofal maeth a gofal cymdeithasol plant.

## Cyfrifoldebau:

Polisi a dylanwadu

- Datblygu safleoedd a datrysiadau polisi a seilir ar dystiolaeth i ddylanwadu ar bolisi, deddfwriaeth ac ymarfer y Deyrnas Unedig i wella gofal maeth ar lefelau cenedlaethol a lleol.
- Gweithredu fel ffynhonnell arbenigedd ar faethu a pholisi gofal cymdeithasol plant, a darparu cyngor ar bolisi, mewnbwn a chymorth i staff.
- Arwain ar ddatblygu a chynnal ymchwil, arolygon a dadansoddiadau o safon uchel o farnau gwasanaethau maethu, gofalwyr maeth a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod safleoedd, ymgyrchoedd ac adroddiadau'r Rhwydwaith Maethu yn seiliedig ar dystiolaeth / wedi'u hysbysu.

Ymgysylltiad a chyfranogiad rhanddeiliaid a materion cyhoeddus

- Datblygu ac ymgysylltu â rhwydwaith ymgyrchwyr Y Rhwydwaith Maethu a'i fyrddau cynghori gofalwyr a gwasanaethau maeth yng Nghymru sy'n hysbysu ac yn cynorthwyo'r sefydliad i helpu i gyflawni blaenoriaethau'i ymgyrchoedd.
- Datblygu a chynnal perthnasoedd o bwysigrwydd allweddol i'r sefydliad gyda rhanddeiliaid elusennol a rheoliadol, swyddogion y llywodraeth a seneddwyr yng Nghymru i gyflawni blaenoriaethau ymgyrchoedd.
- Datblygu a chynorthwyo cyfranogiad ac ymgysylltiad pobl ifanc ar y bwrdd cynghori maethu yng Nghymru i ymgyrchu ac i ddylanwadu ar bolisi.
- Cynrychioli'r sefydliad ar grwpiau allweddol, yn dylanwadu ar glymbleidiau a byrddau cynghori'r Llywodraeth.
- Cynllunio, trefnu a chynnal digwyddiadau i ddylanwadu ar bolisi ac i gasglu ymchwil megis cyfarfodydd bord gron, grwpiau ffocws a digwyddiadau seneddol.
- Trwy weithio'n agos gyda'r timau perthnasol ledled y sefydliad, sicrhau bod blaenoriaethau ymgyrchu a safleoedd polisi'r sefydliad yn cael eu hysbysu gan ei aelodau, tystiolaeth gan ei sylfaen ymarfer a'i fyrddau cynghori gofalwyr maeth a / neu blant a phobl ifanc.

Gweithio fel Tîm:

- Gweithio'n agos gyda'r tîm Polisi ac Ymgyrchoedd / Cyfarwyddiaeth Dylanwadu ac Ymgysylltu i sicrhau bod cynlluniau a blaenoriaethau'n gyson â chynlluniau a strategaethau sefydliadol ehangach.
- Cynrychioli'r tîm yn effeithiol a chyfrannu'n weithredol tuag at gyfarfodydd mewnol a digwyddiadau allanol.
- Deall a chadw at bolisïau ac arferion Y Rhwydwaith Maethu.
- Ymgysylltu ag, a dangos ymrwymiad i genhadaeth, gweledigaeth, gwerthoedd a strategaeth Y Rhwydwaith Maethu.

- Ymgysylltu'n rhagweithiol â'r dull datblygu perfformiad o weithredu, gan gymryd cyfrifoldeb dros chwilio am gyfleoedd datblygu priodol a chymryd rhan mewn dysgu.
- Cymryd ymagwedd sy'n seiliedig ar berthynas tuag at eich gwaith, gan ddeall bod creu perthnasoedd cadarnhaol gyda'n rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn ganolog i gyflawni'n hamcanion.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'r lefel, yn unol â gweithdrefnau a chanllawiau y cytunwyd arnynt.

## Prif Randdeiliaid

Yn ychwanegol at eu tîm uniongyrchol, bydd deiliad y rôl hon yn gweithio'n neilltuol gyda:

| Mewnol | Allanol |
|---|---|
| • Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymru<br>• Rheolwr Cymunedau Maethu<br>• Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl<br>• Maethu Lles<br>• Aelodaeth<br>• Codi Arian<br>• Marchnata a Chyfathrebu<br>• Cyfarwyddwr Ymgysylltu / Dylanwadu<br>• Prif Swyddog Gweithredol | • Plant a phobl ifanc â phrofiad gofal a'r bwrdd cynghori pobl ifanc<br>• Bwrdd cynghori gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu<br>• Aelodau o'r Senedd<br>• Swyddogion y llywodraeth<br>• Maethu Cymru<br>• Elusennau sy'n gweithio ar faterion plant<br>• Academyddion sy'n gweithio ar ofal cymdeithasol plant<br>• Arolygiaeth Gofal Cymru a chyrff rheoliadol eraill ar ofal cymdeithasol plant. |

## Yr hyn y chwiliwn amdano:

### Gwybodaeth, Profiad a Chymwysterau Hanfodol

- Cymhwyster Gradd person graddedig neu ôl-raddedig.
- Profiad sylweddol o ddatblygu polisi a pharatoi ymatebion i gynigion polisi allanol a llunio adroddiadau a briffiau.
- Profiad sylweddol o gynnal ymchwil a dadansoddi data.
- Profiad sylweddol o ymgyrchu, lobïo neu brofiad seneddol.
- Profiad o lobïo llunwyr polisi mewn llywodraeth ganolog neu leol ac o weithio i ddylanwadu ar lunwyr barn.
- Profiad o weithio i ddiwygio canllawiau neu ddeddfwriaeth sylfaenol ac/neu eilaidd.
- Dealltwriaeth ardderchog o sut mae strwythurau llywodraeth ganolog a lleol yn gweithio, yn cynnwys sefydliadau datganoledig a fframweithiau deddfwriaethol perthnasol.
- Gwybodaeth am ofal cymdeithasol plant neu am faterion cyfredol mewn gofal maeth.

- Gwybodaeth am egwyddorion a sianelau cyfathrebu, yn neilltuol gwybodaeth am, a phrofiad o ddefnyddio cyfryngau digidol a chymdeithasol o ran gwaith dylanwadu.
- Gwybodaeth am fethodoleg a fframweithiau ymchwil.
- Profiad o ddatblygu peirianweithiau i ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd, yn enwedig pobl ifanc.
- Profiad sylweddol o ddatblygu perthnasoedd rhanddeiliaid.

## Sgiliau ac Agweddau Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu geiriol ac ysgrifenedig ardderchog, gyda'r gallu i gyfathrebu'n hyderus ar faterion cymhleth yn syml ac yn effeithiol.
- Sgiliau rhyngbersonol ardderchog, gyda'r gallu i ymdrin yn hyderus ag ystod o bobl ar bob lefel, yn fewnol ac yn allanol, fel ei gilydd.
- Sgiliau dadansoddi a rhifedd, i dynnu a dehongli gwybodaeth ddefnyddiol o ddata arolygon a ffynonellau eraill o wybodaeth.
- Sgiliau cynllunio a threfnu ardderchog, y gallu i flaenoriaethu llwyth gwaith, i ymdrin â galwadau sy'n gwrthdynnu ac i fodloni terfynau amser caeth.
- Y gall i feddwl yn greadigol ac i ganfod a manteisio ar gyfleoedd ymgyrchu.
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm.
- Ymrwymiad i gynnal cyfrinachedd gwybodaeth sydd ym meddiant Y Rhwydwaith Maethu.
- Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Ymrwymiad i genhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd Y Rhwydwaith Maethu.
- Bod yn fodlon teithio o fewn y Deyrnas Unedig o bryd i'w gilydd a gyda hysbysiad digonol.

## Manteisiol

- Profiad o reoli ac adeiladu sylfaen o gefnogwyr.
- Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Profiad gofal a / neu brofiad bywyd o ofal maeth.
- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg, yn llafar ac yn ysgrifenedig, fel ei gilydd.